



March 2021

Heriau maniffesto gan Gyfrifwyr Siartredig yr ICAEW

Mae cyfrifwyr siartredig yn weithwyr proffesiynol talentog, moesegol ac ymrwymedig. Mae mwy na 1.8 miliwn o gyfrifwyr siartredig a myfyrwyr yn y byd, ac mae dros 157,800 o'r rhain yn aelodau a myfyrwyr yr ICAEW. Mae'r ICAEW yn sicrhau bod ganddynt y sgiliau a'r gwerthoedd sydd eu hangen arnynt i adeiladu busnesau, economïau a chymdeithasau gwydn, wrth sicrhau y rheolir adnoddau ein planed yn gynaliadwy.

Mae 3,200 o Gyfrifwyr Siartredig yr ICAEW yn byw a gweithio yng Nghymru, gan weithio mewn busnesau o bob maint a chynghori'r rhain, ym mhob sector ac ym mhob rhan o'r wlad. Mae Bwrdd Strategaeth Cymru'r ICAEW yn cynrychioli'r aelodau hyn, ac yn cynghori ar y gwaith a wneir yng Nghymru. Yn seiliedig ar brofiad busnes a gwybodaeth ein haelodau am economi Cymru, rydym wedi adnabod rhai meysydd allweddol y credwn y dylid eu cynnwys ym maniffestos y rheiny sy'n ceisio sedd yn Llywodraeth Cymru i hybu economi gynaliadwy addas ar gyfer y dyfodol yng Nghymru.

a. Cyflawni buddsoddiad, seilwaith a diwygiadau treth.

- Adeiladu ar allu cynyddol busnesau i weithredu o unrhyw le gan sicrhau mynediad at fand llydan cyflym iawn a chysylltedd symudol o ansawdd ledled Cymru gyfan. Bydd hyn yn helpu i fynd i'r afael â'r draen dawn sy'n llesteirio sefydliadau.
- Datblygu'n ofalus gynllun clir, ar ôl y pandemig, ar gyfer amgylchedd gydag amcan strategol clir o sicrhau adferiad economaidd, a all gynnwys polisiau treth.
- Creu hinsawdd treth sy'n:
 - annog trethdalwyr i breswyllo yng Nghymru drwy sicrhau cyfleoedd a rhagolygon gwaith gwerth chweil;
 - diwygio cyfraddau busnes i alluogi busnesau i ail-bwrpasu adeiladau'n fwy rhwydd ac i weithredu'n broffidiol ledled Cymru.
- Dod o hyd i ddatrysiadau i dagfeydd trafniadaeth cyffredinol ar lefel strategol a rhanbarthol ym mhob rhan o Gymru.

b. Hybu sgiliau a chymorth busnes.

- Alinio mentrau cymorth busnes a pholisiau'r llywodraeth i sicrhau bod Cymru yn parhau'n gystadleuol ac atyniadol i fusnesau aros neu leoli eu hunain yng Nghymru a chydweithio â'r bargaenion Dinesig a Thwf i ddylunio'r datrysiad gorau i bob rhanbarth.
- Datblygu cyfleoedd prentisiaeth ymhellach a helpu cyflogwyr i gyflogi pobl ifanc yn eu swydd gyntaf. Mae'r gallu i ddarparu prentisiaethau Lefel 6 a 7 yn hynod bwysig i'n haelodau sy'n hyfforddi cyfrifwyr. Rydym yn ymwybodol bod symudedd cymdeithasol yng Nghymru yn cael ei llesteirio gan ddarparu prentisiaethau hyd at Lefel 4 yn unig.

ICAEW

Neuadd y Cyfrifwyr Siartredig Moorgate Place Llundain EC2R 6EA DU
Ff: +44 (0)20 7920 8100 Ff: +44 (0)20 7920 0547 icaew.com

Y Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig yng Nghymru a Lloegr (ICAEW) yn gorfforedig drwy Siarter Brenhinol (RC000246)
Swyddfa gofrestrdedig: Neuadd y Cyfrifwyr Siartredig Moorgate Place Llundain EC2R 6EA DU

- Wrth i siâp yr economi newid, sicrhau y gall gweithwyr sy'n cael eu dadleoli, ac sy'n aml yn hynod fedrus, ddargadw ac adleoli eu sgiliau mewn technolegau a busnesau newydd a fydd yn gyrru'r economi ymlaen.
- Helpu busnesau i fanteisio i'r eithaf ar farchnad fewnol y DU a chael mynediad at gyfleoedd allforio yn dilyn ymadael â'r UE.

c. Cefnogi'r economi drwy wasanaethau cyhoeddus.

- Defnyddio'r strwythurau cymorth busnes ac economaidd rhanbarthol i ddatblygu cynlluniau gweithredu economaidd rhanbarthol sy'n dod ynghyd i ffurfio cynllun cyraeddadwy cenedlaethol ar gyfer adfer gyda nodau clir, mesuradwy a realistig.
- Cydnabod gwahaniaethau rhanbarthol ac anghydraddoldeb cyfle ledled Cymru yn y gwaith cynllunio economaidd, a sicrhau bod y cynllun yn integreiddio â phob un o fargenion Dinesig a Thwf Cymru.
- Sicrhau bod fforwm ar waith fel cyfrwng i fusnesau siarad yn uniongyrchol â Gweinidogion, i ddylanwadu ar ddatblygiad cynlluniau gweithredu a pholisi economaidd.

d. Gwella amgylchedd a chynaliadwyedd busnesau Cymru.

- Defnyddio manteision amgylcheddol a gyflawnwyd yn ystod y pandemig, megis gweithio gartref, ac adeiladu arnynt i wella ôl troed carbon busnesau a gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.
- Buddsoddi mewn datblygu adnoddau adnewyddadwy a busnesau gwyrdd i greu Cymru fwy cynaliadwy, yn benodol mewn ynni a thechnolegau trafniadaeth, gan gynnwys rhwydwaith o bwyntiau gwefru cerbydau trydan hygyrch ledled Cymru.
- Gwneud Cymru yn fwy hunangynhaliol wrth gynhyrchu nwyddau i leihau dibyniaeth ar allforio ym meysydd cyflenwi allweddol megis cyflenwadau meddygol.
- Helpu busnesau Cymru i fabwysiadu technolegau galluogi, newydd a fydd yn lleihau eu heffaith amgylcheddol ac yn hyrwyddo cynhyrchiant ac ysbryd cystadleuol.

Byddem yn hapus i drafod unrhyw rai o'r pwyntiau uchod mewn mwy o fanylder wrth i chi ddatblygu eich maniffestos a pholisïau busnes.

Yn gywir,



Stephen Burt
Chair, ICAEW Welsh Strategy Board

For further details contact: Beverley Waters, Regional Director
Beverley.waters@icaew.com
 02079 208715
 07971 311362